CYFRES A5

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Storïau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 12: 1-9

ADNOD ALLWEDDOL
Diarhebion 3: 5

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 1 Duw yn galw Abram



Ydych chi wedi symud tŷ erioed? Mae'n rhaid pacio llawer o bethau os byddwn ni'n symud tŷ. Dyna gyffrous yw symud i fyw mewn cartref newydd!

Gadawodd Abram y wlad lle cafodd ei eni a theithio cannoedd o filltiroedd i wlad newydd. Roedd ganddo resymau arbennig iawn dros symud. Roedd Duw wedi dweud wrtho am adael ei wlad a mynd i wlad arall. Roedd Duw'n dweud y byddai ef yn dangos y ffordd iddo.

C **Ysgrifennwch yn y swigen siarad beth ddywedodd Duw wrth Abram.**

"Mae angen i ti

adael dy w _ _ _ a

m _ _ _ i w _ _ _ arall.

Byddaf i'n d _ _ _ _ y

ff _ _ _ i ti."

Pam ddywedodd Duw wrth Abram am symud? Roedd gan Dduw gynlluniau pwysig ar gyfer Abram. Roedd yn mynd i'w wneud yn bennaeth cenedl arbennig. Byddai Abram yn dod yn ddyn enwog iawn!



C **Rhowch ✓ ar ôl y DDWY frawddeg sy'n wir.**

Gadawodd Abram ei gartref gan ei fod wedi ffraeo â'i deulu. .....
Cafodd Abram ei ddewis gan Dduw i fod yn bennaeth cenedl bwysig. .....
Gadawodd Abram ei gartref am nad oedd bwyd yno. .....
Daeth Abram yn ddyn enwog iawn .....

4

Beth fyddai Abram yn ei wneud? A fyddai'n ufudd i Dduw ac yn trystio Duw i gadw'i addewidion? Ynteu a fyddai'n mynd ei ffordd ei hunan? Roedd Abram yn ddoeth, a bu'n UFUDD i Dduw a'i DRYSTIO i'w arwain y ffordd iawn. Dylen ni wneud hynny hefyd!

C **Lliwiwch yr Adnod Allweddol.**

"Ymddiried yn Iiwyr yn yr Arglwydd"

5

C **Ysgrifennwch pa adnod, o ba bennod, o ba lyfr yn y Beibl yw hi**

_____

2

Felly, cychwynnodd Abram o'i gartref. Doedd e ddim yn gwybod i ble y byddai Duw'n ei arwain. Ar ôl taith hir, daeth i wlad Canaan a dywedodd Duw wrtho y byddai'n rhoi'r tir hwn iddo ef a'i deulu. .

C **Ysgrifennwch enw'r wlad yr addawodd Duw ei rhoi i Abram.**

C _ _ _ _ _

Roedd ei wraig, **Sarai**, a'i nai, **Lot**, gydag ef ar y daith.

C **Ysgrifennwch eu henwau yn y bylchau.**

S _ _ _

L _ _

4

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 13: 1 -18

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 13: 15

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 2 Abram a Lot

Daeth Abram yn ddyn cyfoethog iawn. Roedd ganddo lawer o gamelod, geifr a defaid. Roedd gan ei nai, Lot, lawer o anifeiliaid hefyd. Weithiau, byddai eu gweision yn cweryla gan nad oedd digon o borfa ar gyfer yr holl anifeiliaid.



C Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau hyn yn y grid geiriau.

C							G			
A										

1. Weithiau, roedd eu gweision yn c_ _ _ _ _ _.
2. Roedd Abram yn ddyn c _ _ _ _ _ _ _ _.
3. Roedd gan Lot lawer o a _ _ _ _ _ _ _ _ _.

Doedd Abram ddim yn hoffi eu gweld yn cweryla. Penderfynodd yn dylai ef a Lot wahanu. Roedd Abram yn garedig a gadawodd i Lot ddewis pa ffordd yr oedd ef am fynd. Ond roedd Lot yn hunanol ac fe ddewisodd fynd i'r man oedd yn edrych orau.

C **Tynnwch linell rhwng y ddau ddyn a'r gair gorau i'w disgrifio.**

Lot

CAREDIG

HUNANOL

Abram

4

Edrychodd Lot i'r dwyrain a gweld afon Iorddonen. Roedd yn gallu gweld porfa dda ar gyfer ei anifeiliaid hefyd. Gwnaeth Lot ddewis hunanol a mynd tua'r dwyrain.

C **Tynnwch lun y ddau beth a welodd Lot.**



4

Felly, aeth y ddau ddyn i gyfeiriadau gwahanol. Siaradodd Duw ag Abram. Addawodd iddo y byddai'r HOLL dir, mor bell ag y gallai weld, yn dod yn eiddo iddo ef a'i blant a phlant ei blant un diwrnod. Gwnaeth hyn Abram yn hapus iawn. Yna symudodd ymlaen cyn aros i fyw ger Hebron. Roedd ei daith ar ben ac fe adeiladodd allor a diolch i Dduw.

C **Llanwch y bylchau i orffen y frawddeg.**



Aeth Abram i fyw ger __ __ __ __ __ __

lle'r adeiladodd __ ___ __ __ i'r __ __ __ __ __ __ ___.

3

Aeth Lot i fyw yn ninas ddrwg Sodom. Gan ei fod yn hunanol, gwnaeth y dewis anghywir.

Rhowch ✓ i ddangos enw'r ddinas lle aeth Lot i fyw.

Sychar ☐ Samaria ☐ Sodom ☐

3

Mae'n bwysig gwneud y dewisiadau iawn yn ein bywydau. Ydych chi wedi gwneud y dewis pwysicaf oll ac wedi gofyn i Iesu ddod i'ch bywyd fel Gwaredwr, Ffrind ac Arweinydd?

Enw

DARLLENWCH
Genesis 15: 1-7

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 15: 6

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 3 Addewidion Duw

Os bydd rhywun yr ydyn ni'n ei drystio yn addo rhywbeth i ni, mae'n ein gwneud ni'n hapus iawn. Byddwn yn gwybod y daw'r addewid yn wir rhyw ddiwrnod.
Roedd Duw wedi addo llawer o bethau i Abram. Roedd Abram yn gwybod y byddai Duw yn cadw at ei air ond, weithiau, roedd yn meddwl tybed sut y gallai ddod yn arweinydd cenedl fawr gan nad oedd plant ganddo ef a Sarai!

C **Defnyddiwch yr atebion i'r cliwiau hyn i lenwi'r Grid Geiriau.**

Ar draws
Roedd Duw wedi rhoi llawer o'r rhain i Abram.

I Lawr
Pwy oedd gwraig Abram? (5)
Pwy oedd Abram yn credu ynddo? (3)
Dywedodd Duw y byddai Abram yn arwain _ _ _ _ _ _ fawr. (6)

8



Siaradodd Duw ag Abram eto, mewn gweledigaeth neu freuddwyd ryfeddol. Addawodd Duw y byddai'n rhoi mab i Abram. Byddai'r mab hwn a'i blant a phlant ei blant yn dod yn deulu mawr ac, ymhen amser, yn genedl fawr.

C **Sut siaradodd Duw ag Abram?**

Mewn **g** __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ .

C **Beth addawodd Duw i Abram a Sarai? M** __ __ .

4

"Edrych i fyny i'r awyr," meddai Duw. "Alli di gyfri'r sêr?"

Roedd gormod o sêr i Abram eu cyfrif! Roedd yn amhosibl eu cyfrif i gyd.

Dywedodd Duw y byddai teulu Abram yn tyfu mor fawr, y byddent fel y sêr.

Roedd Abram mor siwr y gallai drystio Duw fel y credodd yr hyn a ddywedodd wrtho.

4

C **Lliwiwch y llun a'r Adnod Allweddol.**

"Credodd Abram yn yr Arglwydd."

Genesis 15: 6

Rhag i Abram anghofio beth ddywedodd Duw wrtho, newidiodd Duw ei enw. Enw newydd Abram oedd Abraham, sy'n golygu 'tad llawer o bobl'.

Cafodd Sarai enw newydd hefyd. Sara oedd ei henw newydd hi.

C **Ysgrifennwch enwau newydd Abram a Sarai.**

A _ _ _ _ _ _ **a** **S** _ _ _

4

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 18: 1-15

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 18: 14

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 4 Abraham a'r bobl ddierth



Ydych chi'n hoffi pan fydd ffrindiau neu berthnasau'n dod i'ch tŷ chi? Un diwrnod poeth, pan oedd Abraham yn eistedd wrth ddrws ei babell, gwelodd dri dyn dierth yn dod a rhedodd i gwrdd â nhw. Cynigiodd ddod â dŵr i olchi eu traed a bara iddynt ei fwyta.

C **Rhowch ✓ wrth y nifer o ddynion a gafodd groeso gan Abraham.**

1 ..... 2 ..... 3 .....

I

Rhedodd Abraham nôl i'w babell a gofyn i Sara bobi bara. Gofynnodd i was ladd llo ifanc i gael cig. Aeth â'r cig a'r bara, a llaeth a menyn i'r dynion, a safodd gerllaw, o dan y goeden tra oedden nhw'n bwyta.

C **Ysgrifennwch y pedwar peth a gafodd eu paratoi ar gyfer yr ymwelwyr.**

B __ __ __ __ , m __ __ __ __ , c __ __ a ll __ __ __.

4





Roedd y bobl ddierth yn rhai arbennig iawn. Duw oedd wedi'u hanfon. Roedd gan un ohonynt newyddion da iawn i Abraham.

C **Lliwiwch bob sgwâr sydd â smotyn ynddo i gael gweld beth yr oedd Abraham a Sara yn mynd i'w gael.**

3



Gan fod Abraham a Sara'n hen iawn, chwarddodd Sara wrth feddwl am gael babi.

Ar ôl amser, cafodd y bachgen bach ei eni. Isaac oedd ei enw. Nawr roedd gan Sara reswm gwahanol dros chwerthin. Roedd hi'n chwerthin mewn llawenydd! Roedd hi wedi dysgu nad oes dim yn amhosibl gyda Duw a bod Duw bob amser yn cadw'i addewidion.

2

C **Beth y mae Duw'n eu cadw bob amser?**

E __ a ___ __ __ __ __ __ __ __ .

Gallwn ninnau ddiolch i Dduw ei fod wedi cadw'i addewid am anfon Iesu Grist i farw droson ni. Ydych chi wedi diolch iddo?

Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio.

6

Roedd Sara'n ifanc pan gafodd ei mab ei eni. .....

Galwodd hi ei mab yn Isaac. .....

Mae popeth yn bosibl gyda Duw. .....

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 A5

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth.
Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120